**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwillad Craffu - Caffael

**O bell drwy Teams**

**Dydd Llun, 21 Chwefror 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | T M White | P K Jones |
| L R Jones | J W Jones | I E Mann |

**Hefyd yn bresennol**

D H Hopkins — Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau

**Swyddogion**

Chris Williams — Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol

Michelle Roberts — Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: B J Rowlands ac M Sherwood

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Ymchwiliad Archwiliad i Adroddiad Terfynol Caffael**

Trafododd y Panel eu hadroddiad craffu terfynol ar gaffael, gan gytuno i'w gyflwyno i Bwyllgor y Rhaglen Graffu ar 15 Mawrth 2022 ac yna cyfarfod nesaf y Cabinet sydd ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl bobl hynny a gyfrannodd at y darn hwn o waith gan gynnwys y contractwyr a CGGA a roddodd eu profiadau a'u barn ar gaffael yn Abertawe. Roedd hefyd yn awyddus i ddiolch i Busnes Cymru ynghyd â swyddogion ac aelodau'r Cabinet o holl adrannau'r cyngor a roddodd y dystiolaeth fanwl ar sut mae caffael yn gweithredu yn Abertawe.

Trefnir i Bwyllgor y Rhaglen Graffu gytuno ar yr adroddiad ar 15 Mawrth 2022. Yna bydd yn mynd i'r Cabinet i'w ystyried a bydd yr argymhellion hynny y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Panel yn ymgynnull eto 6-9 mis ar ôl penderfyniad y Cabinet i weld effaith ei argymhellion.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

**Cadeirydd**